# Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021

**2021 dsc 4**

## RHAN 2

CWRICWLWM MEWN YSGOLION A GYNHELIR, YSGOLION MEITHRIN A GYNHELIR AC ADDYSG FEITHRIN A GYLLIDIR OND NAS CYNHELIR

### PENNOD 3

GWEITHREDU CWRICWLWM

*Ysgolion a gynhelir ac ysgolion meithrin a gynhelir*

PROSPECTIVE

**33 Adolygiadau ac apelau sy'n ymwneud â dewis disgybl**

(1) Caiff disgybl neu riant y rhoddir gwybodaeth iddo am benderfyniad a wneir gan bennaeth o dan adran 31—

(a) ei gwneud yn ofynnol i'r pennaeth adolygu'r penderfyniad, a

(b) os nad yw wedi ei fodloni ar benderfyniad y pennaeth ar yr adolygiad, apelio i gorff llywodraethu'r ysgol yn erbyn y penderfyniad hwnnw.

(2) Yn sgil adolygiad—

(a) caiff y pennaeth gadarnhau, amrywio neu ddirymu'r penderfyniad, a

(b) rhaid i'r pennaeth roi hysbysiad ysgrifenedig o'r penderfyniad hwnnw—

(i) i'r disgybl,

(ii) i riant y disgybl a

(iii) i'r corff llywodraethu.

***Statws*** *Mae'r fersiwn hon o'r ddarpariaeth hon yn rhagolygol.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021, Adran 33 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 09 Ebrill 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details) View outstanding changes*

(3) Ond nid yw is-adran (2)(b)(i) yn gymwys os yw'r pennaeth yn ystyried nad oes gan y disgybl y galluedd i ddeall—

(a) yr wybodaeth a roddid, neu

(b) yr hyn y mae'n ei olygu i arfer yr hawl a roddir gan is-adran (1)(b).

(4) Yn sgil apêl—

(a) caiff y corff llywodraethu gadarnhau penderfyniad y pennaeth ar yr adolygiad neu gyfarwyddo'r pennaeth i gymryd y camau gweithredu y mae'n ystyried eu bod yn briodol, a

(b) rhaid i'r corff llywodraethu roi hysbysiad ysgrifenedig o'i benderfyniad—

(i) i'r disgybl,

(ii) i riant y disgybl, a

(iii) i'r pennaeth.

(5) Ond nid yw is-adran (4)(b)(i) yn gymwys os yw'r corff llywodraethu yn ystyried nad oes gan y disgybl y galluedd i ddeall yr wybodaeth a roddid.

(6) Rhaid i'r pennaeth gydymffurfio â chyfarwyddyd a roddir o dan is-adran (4)(a).

(7) Rhaid i bennaeth a chorff llywodraethu ysgol o fewn is-adran (8) gyhoeddi gwybodaeth sy'n nodi gweithdrefn ar gyfer adolygiadau ac apelau o dan yr adran hon.

(8) Mae ysgol o fewn yr is-adran hon os yw'r cwricwlwm mabwysiedig yn gymwys i ddisgyblion sydd wedi cwblhau'r flwyddyn ysgol y cyrhaeddodd y rhan fwyaf o'r disgyblion yn eu dosbarth 14 oed ynddi.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 33 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 84(2)**

**Statws**
Mae'r fersiwn hon o'r ddarpariaeth hon yn rhagolygol.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021, Adran 33 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 09 Ebrill 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau.
View outstanding changes

**Changes and effects yet to be applied to :**
– s. 33 coming into force by S.I. 2022/652 art. 8(a)
– s. 33 coming into force by S.I. 2022/652 art. 9(a)